

Adroddiad ar Archwiliad Cyfrifon – Corff Llais y Dinesydd ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol (Llais)

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5080A2025



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	6
Perthnasedd	7
Canfyddiadau Archwilio	8
Y tîm archwilio a chydymffurfiad moesegol	11
Atodiad 1 – Risgiau a chanlyniadau archwilio	12
Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed	17
Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig	18
Atodiad 4 – Llythyr sylwadau	24
Atodiad 5 – Argymhellion	27
Ansawdd archwilio	30
Eich cefnogi	31

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Rwy'n falch o rannu fy Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon ar gyfer 2024-25. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gydag Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

Mae fy nhîm wedi cyflawni i raddau helaeth y gwaith archwilio fel y nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Mai 2025. Mae'r tasgau sy'n weddill yn cynnwys:

- prosesau adolygu mewnol terfynol; a
- diweddaru ein hadolygiad digwyddiadau dilynol o gofio'r amser rhwng y cyfarfod

Archwilio a Sicrwydd Risg i ystyried fersiwn derfynol yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon a chymeradwyaeth ddilynol gan y Bwrdd.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2024-25. Rwyf hefyd wedi nodi un risg archwilio newydd y mae angen tynnu eich sylw ati. Caiff hon, ynghyd â'm hymateb i risgiau archwilio a bodiwyd yn flaenorol, eu cyflwyno yn **Atodiad 1**.

Mae'n ofynnol i mi roi barn ar ba un a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol, a pha un a yw incwm a gwariant wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a'r sail drosti ei hamlinellu yn **Atodiad 3**.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, h.y. y Bwrdd, yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau i mi.

Hoffwn ddiolch i swyddogion a staff Llais am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn hynod werthfawr i allu cwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

Cipolwg ar eich archwiliad



Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon.

Gweler [Atodiad 4](#)



Nid oes unrhyw **faterion arwyddocaol** i'w hadrodd. Fodd bynnag, rydym wedi codi un **mater arall** y mae angen i ni dynnu eich sylw ato.

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Nid oes unrhyw **gamddatganiadau nad ydynt yn fân gamddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr ydym yn dymuno tynnu eich sylw atynt.

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Rydym wedi gwneud **dau argymhelliad** o ganlyniad i'n gwaith.

Gweler [Atodiad 5](#)



Ein nod yw ardystio eich cyfrifon ar **5 Tachwedd 2025**, sydd cyn y terfyn amser o **14 Tachwedd 2025**.

Perthnasedd

Rwy'n defnyddio crebwyll proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i nodi a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith a'r cyfreithiau cyfrifyddu perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddarau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy'n cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, fel y nodir isod:



Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol £5,000 (bandiau cyflog)	Datgeliadau partïon cysylltiedig £1,000 (buddiannau unigol)
---	--

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi pan nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn cyd-fynd â safonau cyfrifyddu.

Camddatganiadau heb eu cywiro

Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro uwchben ein lefel ddibwys o £8,000.

Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, fe wnaethom ganfod rhai camddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan reolwyr, ond yr ydym o'r farn y dylid tynnu eich sylw atynt.

Nodir y rhain yn **Atodiad 2**

Fe wnaethom hefyd argymhell diwygiadau a dileadau i ddatgeliadau yn y cyfrifon i sicrhau cyflawnrwydd, eglurder, a chysondeb drwyddi draw ac i gydymffurfio ag arferion gorau fel y nodir yn y FreM. Nid ydym wedi nodi'r rhain ar wahân yn **Atodiad 2**.

Materion arwyddocaol eraill

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch trosolwg chi o broses adrodd ariannol Llais.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Materion eraill

Ceir un mater arall na ystyrir ei fod yn fater arwyddocaol, fel yr adroddwyd uchod, ond y mae angen i ni dynnu eich sylw ato.

Tystiolaeth archwilio

Yn y flwyddyn gyfredol, bu gwelliant amlwg i ansawdd ac argaeledd papurau gwaith a ddarparwyd ac roedd y rhan fwyaf o ddogfennau allweddol ar gael ar y dyddiadau y cytunwyd arnynt a roddwyd ar waith gyda'r tîm cyllid.

I helpu i gryfhau'r broses hon ymhellach ac i reoli costau, ceir lle i sicrhau ym mhob achos y gallwn ddilyn y trywydd yn eglur o'r datganiadau ariannol i'r papurau gwaith ategol ac yna i'r dystiolaeth sylfaenol. Mae angen darparu'r dystiolaeth hon hefyd i alluogi detholiad rhwydd o samplau i'w profi.

Roeddem yn falch bod y tîm cyllid wedi gweithio i ddod o hyd i ateb ym mhob achos lle nodwyd hyn. Bydd cynnal yr archwiliadau ansawdd hyn yn fewnol ar gyfer y cylch nesaf yn lleihau'r amser sydd ei angen i'r tîm archwilio adolygu.

Fe wnaeth yr amser a'r ymdrech ychwanegol a oedd yn angenrheidiol i ddatrys yr uchod greu aneffeithlonrwydd a chostau ychwanegol i ni gwblhau'r gwaith angenrheidiol.

Rydym wedi gwneud argymhelliad manwl yn **Atodiad 5** i'r rheolwyr fynd i'r afael ag ef yn 2025-26.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni (gweler isod).

Cyflwynir ein hadroddiad archwilio arfaethedig yn ei nodi yn **Atodiad 3**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau lle'r ydych yn cadarnhau i ni fod yr wybodaeth a ddarparwyd i ni yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon yn ofynnol o dan safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4** ac mae ei gynnwys yn cyd-fynd â'n cais safonol am sylwadau.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad yn ystod yr archwiliad, a nodir yn **Atodiad 5** ynghyd ag ymatebion y rheolwyr iddynt.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

Y tîm archwilio a chydymffurfiad moesegol

Caiff prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu

Helen Goddard
helen.goddard@archwilio.cymru

Rheolwr Archwilio

David Williams
david.williams@archwilio.cymru

Arweinydd Archwilio

Anne-Marie Royal
anne-marie.royal@archwilio.cymru

Cydymffurfiad â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthynas a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Atodiad 1 – Risgiau a chanlyniadau archwilio

Ers cyhoeddi fy Nghynllun Archwilio ym mis Mai, nododd fy nhîm risg ychwanegol o gamddatganiad perthnasol y dylid tynnu eich sylw ati fel y rhestrir isod.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio a nodwyd ar ôl cyhoeddi fy Nghynllun Archwilio

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Yn 2023-24, fe wnaeth ein profion sampl nodi croniad a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth o wasanaeth yn 2024-25 ac na ddylai fod wedi cael ei ddosbarthu fel gwariant 2023-24. Ceir risg bod gwallau tebyg yn bodoli yng ngwariant 2024-25.	Fe wnaeth y tîm archwilio: • Brofi o ran sylwedd sampl o groniadau â phwyslais penodol ar dorbwynt gwariant.	Ni wnaeth fy ngwaith archwilio nodi unrhyw broblemau/gwallau.

Fe wnaeth fy Nghynllun Archwilio nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon Llais. Mae **Arddangosyn 3** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

Arddangosyn 3: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a'r canlyniad

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Risg o wrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].	Fe wnaeth y tîm archwilio: - brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; - adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tueddiadau; a - gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i weithrediad busnes arferol.	Ni wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr.
Datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol ac adrodd staff Mae cydnabyddiaeth ariannol a delir i swyddogion uwch ac aelodau'r bwrdd yn dal i fod o ddiddordeb mawr ac mae'n berthnasol ei natur. Felly, ceir risg y gallai hyd yn oed gwallau isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.	Fe wnaeth y tîm archwilio: - ddeall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2024-25; - sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelwyd yn gyson â thystiolaeth ategol - sicrhau bod y symiau a delir yn gyson â thystiolaeth ategol - sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac wedi'u paratoi yn unol â'r gofynion.	Ni wnaeth fy ngwaith archwilio nodi unrhyw gamddatganiadau mewn datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol ac adrodd staff.

Darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau sy'n cydnabod y gofynion a nodir m mhob un o'r 12 o lesioedd adeiladu i adfer yr eiddo i'w cyflwr gwreiddiol ar ôl terfynu'r cytundebau les unigol. Mae'r cyfrifiadau hyn wedi'u seilio ar 'gost fesul troedfedd sgwâr' fras, a gafaelir o ffynhonnell annibynnol. Mae risg gynhenid uwch o gamddatganiad yn gysylltiedig â darpariaethau neu amcangyfrifon sydd angen dyfarniadau arwyddocaol.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr amcangyfrif ac adolygu rhesymoldeb y dull a ddefnyddiwyd i benderfynu ar y gwerth ariannol; ac
- ystyried pa un a yw'r darpariaethau yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu a datgelu IAS 37 – Darpariaeth, Atebolrwyddau Dibynnol a'r Asedau Dibynnol a'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FreM).

Ni wnaeth fy ngwaith archwilio nodi unrhyw gamddatganiadau mewn darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau

Cyfrifyddu ar gyfer

asedau hawl i

ddefnyddio a'u datgelu

Mae IFRS 16 – Lesoedd, yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau gael eu hasesu i gadarnhau eu bod yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased. Mae'r gwerthoedd dan sylw yn berthnasol. Ceir risg o gyfrifyddu ar gyfer asedau hawl i ddefnyddio a'u datgelu yn anghywir yn y cyfrifon.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- brofi o ran sylwedd sampl o asedau hawl i ddefnyddio â dogfennau ategol i gadarnhau bod yr hawl a rhwymedigaethau'r asedau yn cael eu cydnabod yn briodol;
- ail-wneud y cyfrifon a ddefnyddiwyd i benderfynu ar werth presennol y les unigol a chytuno ar y gyfradd ostyngiad a neilltuwyd i dystiolaeth ategol; a
- chadarnhau bod y nodyn datgelu wedi cael ei baratoi yn unol â gofynion IFRS 16 a'r FreM.

Ni wnaeth fy ngwaith archwilio nodi unrhyw gamddatganiadau yng nghyfrifyddu a datgelu asedau hawl i ddefnyddio.

Datgeliadau Partïon Cysylltiedig

Mae rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthynas â phartïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng y corff a'r corff/parti arall.

Mae gan y Cyngor sawl perthynas y gellid ei hystyried yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus, er enghraifft, Llywodraeth Cymru fel ariannwr. Fodd bynnag, pan fo perthynas â phartïon cysylltiedig yn codi trwy berthynas swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynghylch y berthynas hon. Mae'r trafodiadau hyn o ddiddordeb mawr ac maent yn berthnasol eu natur.

Ceir risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- adolygu proses y rheolwyr ar gyfer nodi perthynas â phartïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthynas â phartïon cysylltiedig; a
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn cyd-fynd â gofynion cyfrifyddu.

Ni wnaeth fy ngwaith archwilio nodi unrhyw gamddatganiadau yn y datgeliadau partïon cysylltiedig, ond rydym wedi gwneud argymhelliad ar gyfer gwella yn **Atodiad 5**.

Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, fe wnaethom ganfod y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan reolwyr, ond yr ydym o’r farn y dylid tynnu eich sylw atynt.

Gwerth y cywiriad	Maes yn y cyfrifon	Esboniad
£8,000 (Datgeliad yn unig – dim effaith ar y prif ddatganiadau a’r gwariant net a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn)	Nodyn 5 Ymrwymïadau eraill o dan lesioedd Datgelwyd y gwerth a briodolwyd i rwymedigaethau o dan lesioedd fel £18,000 yn wreiddiol. Diwygiwyd hwn i’w ffigur cywir o £26,000.	I sicrhau cywirdeb a chyflawnrwydd Nodyn 5 a chydymffurfiad â’r FReM.
£622,000 (Datgeliad yn unig – dim effaith ar y prif ddatganiadau a’r gwariant net a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn)	Note 7 Asedau Anniriaethol Datgelwyd cyfanswm y gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024 fel £0 yn wreiddiol. Diwygiwyd hwn i’r ffigur cywir o £622,000.	I sicrhau cywirdeb a datgeliad Nodyn 7 a chydymffurfiad â’r FreM.
Naratif (Datgeliad yn unig – dim effaith ar y prif ddatganiadau a’r gwariant net a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn)	Gwnaed nifer o ddiwygiadau naratif, cyflwyniadol a llai na mân i’r Adroddiad Blynnyddol a’r Cyfrifon	I sicrhau cywirdeb ac eglurder datgeliadau i ddarllenwyr yr Adroddiad Blynnyddol a’r Cyfrifon a chydymffurfiad â’r FreM.

Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Corff Llais y Dinesydd ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol (a adnabyddir fel Llais) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifau Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau i nodiadau Trethdalwyr a chysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Llais ar 31 Mawrth 2025 a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o Dan Ddeddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant sydd wedi'i gofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol o ran digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu o ran busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Llais gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall wedi'i chyfansoddi o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blyneddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau o'r adroddiad cydnabyddiaeth ariannol sy'n cael eu harchwilio a'm hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blyneddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni, ac eithrio i'r graddau a nodir yn eglur fel arall yn fy adroddiad. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol

anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu wybodaeth sy'n ymddangos fel camddatganiadau perthnasol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae rhannau'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol yr wyf yn eich hysbysu amdanynt os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n addas ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na ymwelodd fy nhîm â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan a archwilir o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru am gydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau eraill wedi'i datgelu;

- nad yw datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM yn cael eu gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaid â chanllawiau Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynnyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi'r broses o baratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Llais i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, materion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Llais yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n sicrwydd pendant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau,

a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol o ran afreoleiddra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Llais a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys caffael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Llais yn ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
 - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaid â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll o ran postio cyfnodolion anarferol;
- Datblygu dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llais yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio eraill y mae Llais yn gweithredu yn unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llais; a
- Datblygu dealltwriaeth o'r berthynas â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofion â dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaid â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i weithrediad busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfathrebu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio a chadw yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaid â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ganfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llais, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gaffael tystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
5 Tachwedd 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd

Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

5 Tachwedd 2025

Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2024-25

Darperir y llythyr hwn yng nghyswllt eich archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sy'n destun archwiliad) Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (a adnabyddir fel Llais) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch, eu paratoad priodol a rheoleidd-dra incwm a gwariant.

Rydym yn cadarnhau hyd yr ydym yn ei wybod ac yn ei gredu, ar ôl gwneud y fath ymholiadau yr ydym yn eu hystyried yn ddigonol, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb am:

- baratoi'r datganiadau yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i mi:

- arsylwi'r cyfarwyddiadau cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a rhoi polisiâu cyfrifyddu priodol ar waith ar sail gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan pa un a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn a'u datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt; ac
- eu paratoi ar sail busnes gweithredol gan dybio y bydd gwasanaethau Llais yn parhau i weithredu;

- sicrhau rheoleidd-dra unrhyw wariant a thrafodiadau eraill a gyflawnwyd; a
- dylunio, gweithredu a chynnal rheolaeth fewnol i atal a chanfod gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol i chi:

- mynediad llawn at:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol fel llyfrau cyfrifon a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad;
 - mynediad anghyfyngedig at aelodau staff y gwnaethoch benderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll tybiedig yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Llais ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â swyddogaethau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyfathrebwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill; ein gwybodaeth am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfriad neu ddiffyg cydymffurfriad tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- manylion yr holl bartïon cysylltiedig a phob perthynas a thrafodiad â phartïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt; ac
- ein gwybodaeth am bob achos posibl a gwirioneddol o drafodiadau afreolaidd.

Sylwadau ar y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghydestun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Cyfrifyddwyd yn briodol a datgelwyd yn briodol achosion o berthynas a thrafodion â phartion cysylltiedig.

Datgelwyd neu addaswyd ar gyfer pob digwyddiad ar ôl y dyddiad adrodd y mae'n ei ddatgelu neu addasu ar ei gyfer.

Mae pob ymglyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu i'r archwilydd ac fe'u cyfrifyddwyd a'u datgelwyd yn briodol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau.

Sylwadau gan y Bwrdd

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 5 Tachwedd 2025.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi eu cymryd er mwyn gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau ei bod wedi cael ei chyfathrebu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Alyson Thomas

Prif Weithredwr

Dyddiad: 5 Tachwedd 2025

Llofnodwyd gan:

Medwin Hughes

Cadeirydd Bwrdd Llais

Dyddiad: 5 Tachwedd 2025

Atodiad 5 – Argymhellion

Rydym yn nodi isod argymhellion o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb eich rheolwyr iddynt.

1. Mae angen gwelliannau pellach i'r dystiolaeth a ddarparwyd i ategu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon

Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith caled y mae swyddogion wedi ei wneud i weithredu ein hargymhellion blaenorol o 2022-23 a 2023-24 wrth i Llais barhau i fireinio gweithdrefnau mewnol.

Yn y flwyddyn gyfredol, bu gwelliant amlwg i ansawdd ac argaeledd papurau gwaith, ond ceir lle i sicrhau ym mhob achos y gallwn ddilyn y trywydd yn eglur o'r datganiadau ariannol i'r papurau gwaith ategol ac yna i'r dystiolaeth sylfaenol. Mae angen hefyd i'r dystiolaeth hon gael ei darparu mewn fformat i alluogi detholiad rhwydd o samplau i'w profi. Dylai'r holl bapurau gwaith a thystiolaeth ategol perthnasol fod ar gael a chael eu darparu ar ddechrau'r archwiliad.

Bydd cynnal yr archwiliadau ansawdd hyn yn fewnol ar gyfer y cylch nesaf yn lleihau'r amser sydd ei angen i'r tîm archwilio adolygu.

Hefyd, fe wnaethom dderbyn sawl fersiwn o'r Adroddiad Blynyddol yn ystod yr archwilia. Dylai'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon gael eu darparu gyda'i gilydd ar ddechrau'r archwiliad.

Blaenoriaeth:

Uchel

Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr:

Do

Ymateb y rheolwyr:

Mae'r tîm cyllid yn cydnabod bod gwaith i'w wneud i wella'r papurau gwaith ymhellach ar gyfer y cylch archwilio nesaf.

Mae systemau a phrosesau ariannol Llais wedi cael eu hadolygu a'u gwella ers dechrau 2025/26. O'r herwydd, bydd y dystiolaeth a ddarperir i archwilyr yn ystod cylchoedd archwilio yn y dyfodol o safon uwch.

Rhoddwyd adborth adeiladol yn ystod archwiliad 2024/25 gan y tîm archwilio allanol, a fydd yn cael ei ymgorffori yn y gwaith o gynllunio archwiliad 2025/26.

Dyddiad gweithredu:

Ebrill 2025 – gwnaed newidiadau i'r prosesau ariannol ers dechrau 2025/26.

2. Mae angen gwelliannau pellach i'r broses o gasglu datganiadau o fuddiant i ategu'r datgeliadau yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon

Nododd yr archwiliad bod sawl ffurflen datganiad o fuddiant wedi cael eu cwblhau ar wahanol ddyddiadau cyn diwedd y flwyddyn. Yn ddelfrydol, dylai'r ffurflenni hyn gwmpasu'r cyfnod llawn o 12 mis i gyd-daro â dyddiad yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon h.y. cael eu cwblhau ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

Os nad yw hynny'n digwydd, yna dylid gofyn am gadarnhad ychwanegol nad oes angen unrhyw ddatganiadau pellach ar gyfer y cyfnod yn y cyfamser.

Hefyd, dylai ffurflenni datganiadau o fuddiant gael eu diweddarau ar ddyddiad ymadael staff uwch ac aelodau bwrdd perthnasol sy'n gafael y sefydliad hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol.

Roeddem yn falch ym mhob achos bod y diweddariadau hyn wedi cael eu darparu i ni yn ystod yr archwiliad ar gais.

Blaenoriaeth:

Canolig

Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr:

Do

Ymateb y rheolwyr:

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026, bydd cais yn cael ei wneud i aelodau a staff uwch ddyddio eu datganiad cadarnhau fel 31 Mawrth yn unig.

Hefyd, mae trefniadau ar waith i unrhyw ddatganiadau gael eu cadarnhau ar y dyddiad y mae aelod o'r Bwrdd neu aelod staff uwch yn gadael y sefydliad.

Dyddiad gweithredu:

Erbyn 31 Mawrth 2026

Ansawdd archwilio


Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn llwyr. Rydym o'r farn bod ansawdd archwilio yn golygu gwneud pethau yn iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgyssylltu a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Rydym yn gwneud y gwaith yn destun craffu annibynnol gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein [Hadroddiad Archwilio 2024](#).




Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platform archwilio
- Dysgu a datblygu
- Moeseg
- Arweinyddiaeth
- Canllawiau
- Cymorth technegol
- Diwylliant



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Adolygiadau â thema
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Adolygiadau oer
- Monitro allanol
- Dadansoddiad o wraidd y problem

Eich cefnogi

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o adnoddau i gynorthwyo'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch i'n gwefan i ddarganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well o dueddiadau gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a gwybodaeth o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.

